OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 304

# Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2019

**Amserlen yr ymchwiliad**

**13.**—(1) Rhaid i'r arolygydd, mewn cyfarfod rhagymchwiliad a gynhelir yn unol â rheoliad 10—

(a) trefnu amserlen ar gyfer y trafodion mewn ymchwiliad, neu mewn rhan o ymchwiliad; a

(b) pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i Weinidogion Cymru gael unrhyw broflen dystiolaeth a chrynodeb a anfonir yn unol â rheoliad 18, ac unrhyw ddatganiad tir cyffredin a anfonir yn unol â rheoliad 19,

a rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig am y dyddiad a bennir felly i bob person sydd â hawl i ymddangos.

(2) Rhaid i'r arolygydd, nid hwyrach na phedair wythnos cyn dechrau'r ymchwiliad, anfon copi o'r amserlen at bob person sydd â hawl i ymddangos.

(3) Pan na fo cyfarfod rhagymchwiliad yn cael ei gynnal—

(a) caiff yr arolygydd drefnu amserlen ar gyfer y trafodion mewn ymchwiliad, neu mewn rhan o ymchwiliad; a

(b) rhaid i'r arolygydd bennu'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i Weinidogion Cymru gael unrhyw broflen dystiolaeth a chrynodeb a anfonir yn unol â rheoliad 18, ac unrhyw ddatganiad tir cyffredin a anfonir yn unol â rheoliad 19,

a rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig am yr amserlen, os oes un, a'r dyddiad a bennir felly, i bob person sydd â hawl i ymddangos o fewn deg wythnos o ddyddiad yr hysbysiad perthnasol.

(4) Caiff yr arolygydd ar unrhyw adeg amrywio'r amserlen a drefnir o dan y rheoliad hwn, a rhaid hysbysu pob person sydd â hawl i ymddangos am unrhyw newidiadau i'r amserlen.